



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY  
IS-DDEDDFAU AR GYFER  
RHEOLI A LLYWODRAETHU'N DDA

THE COUNTY BOROUGH OF CONWY  
BYELAWS FOR  
GOOD RULE AND GOVERNMENT

## RHEOLI A LLYWODRAETHU'N DDA

Is-ddeddfau a gafodd eu gwneud dan Adran 235 Deddf Llywodraeth Leol 1972 gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar gyfer rheoli a llywodraethu Bwrdeistref Sirol Conwy'n dda ac i atal a gwahardd niwsans.

### Dehongliad Cyffredinol

1. Yn yr is-ddeddfau hyn:

"lôn gerbyd" yw ffordd sy'n rhan o briffordd, neu'n gynnwysedig ynddi, sef ffordd (ac eithrio lôn beicio) y mae gan y cyhoedd hawl tramwy ar gyfer cerbydau ar ei hyd;

"y Cyngor" yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy;

"troedffordd" yw ffordd sy'n gynnwysedig mewn priffordd, sydd hefyd yn cynnwys lôn gerbyd, y mae gan y cyhoedd hawl tramwy ar ei hyd ar droed yn unig;

"Priffordd" yw'r cyfan neu ran o briffordd ac eithrio fferi neu ddyfrffordd;

"Ymyl ffordd neu lain ymyl ffordd" yw tir sydd:

(a) ger lôn gerbyd neu briffordd neu rhwng dwy lôn gerbyd priffordd; ac eithrio lôn gerbyd cefnffordd sydd dan awdurdod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; a

(b) gyda glaswellt wedi ei osod neu ei hadu arno, neu fod coed a llwyni wedi eu plannu yno, ac sy'n cael ei dorri neu ei gynnal a'i gadw mewn cyflwr addurniadol gan y Cyngor;

"cerbyd hunanyredig" yw cerbyd heblaw beic, cadair olwyn neu bram sy'n cael ei yrru gan bwysau neu rym un neu fwy o bobl yn sglefrio, llithro neu yn/ar y

## GOOD RULE AND GOVERNMENT

Byelaws made under section 235 of the Local Government Act 1972 by the Council of the County Borough of Conwy for the good rule and government of the County Borough of Conwy and for the prevention and suppression of nuisances.

### General Interpretation

1. In these byelaws:

"carriageway" means a way constituting or comprised in a highway, being a way (other than a cycle track) over which the public have a right of way for the passage of vehicles;

"the Council" means the Council of the County Borough of Conwy;

"footway" means a way comprised in a highway which also comprises a carriageway, being a way over which the public have a right of way on foot only;

"highway" means the whole or a part of a highway other than a ferry or waterway;

"road margin or verge" means land which is:

(a) adjacent to the carriageway of a highway or between two carriageways of a highway, other than the carriageway of a trunk road vested in the National Assembly for Wales, and

(b) laid or sown with grass or planted with trees, shrubs or plants, and mown or otherwise maintained in an ornamental condition by the Council;

"self-propelled vehicle" means a vehicle other than a cycle, wheelchair or pram which is propelled by the weight or force of one or more persons skating, sliding or

cerbyd, neu gan un neu fwy o bobl yn tynnu neu'n gwthio'r cerbyd;

"Cefnffordd" yw priffordd neu briffordd arfaethedig, sy'n gefnffordd yn rhinwedd Adran 10(1) neu Adran 19 Deddf Priffyrdd 1980, neu drwy rinwedd gorchymyn neu gyfarwyddyd dan Adran 10 y Ddeddf honno.

### **Gweithredu**

2. Bydd yr is-ddeddfau hyn yn weithredol ledled Bwrdeistref Sirol Conwy.

### **Sglefrfyrrddio ac yn y blaen**

3. Ni chaiff unrhyw un sglefrio, llithro na defnyddio sglefrwyr, sglefrfyrrddau na cherbydau eraill hunanyredig ar unrhyw droedffordd na lonydd cerbyd mewn modd a fydd yn achosi perygl neu a fyddai'n sail resymol i greu annifyrrwch i eraill sy'n defnyddio'r droedffordd neu'r lôn gerbyd.

### **Gemau Peryglus ger Priffyrdd**

4. Ni chaiff unrhyw un chwarae pêl-droed nac unrhyw gêm arall ar dir ger priffordd mewn modd sy'n debygol o:

(a) achosi rhwystr i draffig; neu

(b) achosi perygl neu a fyddai'n sail resymol i greu annifyrrwch i unrhyw un ar y briffordd.

### **Chwarae gemau ar briffyrdd a chreu annifyrrwch i drigolion lleol**

5. Ni chaiff unrhyw un chwarae pêl-droed nac unrhyw gêm arall ar briffordd neu dir ger priffordd mewn modd a fyddai'n sail resymol i greu annifyrrwch i unrhyw un sy'n byw gerllaw.

### **Towtio**

5 —1) Ni chaiff unrhyw un, ar unrhyw stryd neu fan cyhoeddus:-

(a) hysbysebu unrhyw wasanaeth na cheisio cael cwsmeriaid i'r gwasanaeth

riding on the vehicle or by one or more other persons pulling or pushing the vehicle;

"trunk road" means a highway, or a proposed highway, which is a trunk road by virtue of section 10(1) or section 19 of the Highways Act 1980 or by virtue of an order or direction under section 10 of that Act.

### **Application**

2. These byelaws apply throughout the County Borough of Conwy.

### **Skateboarding Etc.**

3. No person shall skate, slide or ride on rollers, skateboards or other self-propelled vehicles on any footway or carriageway in such a manner as to cause danger or give reasonable grounds for annoyance to other persons using the footway or carriageway.

### **Dangerous games near highways**

4. No person shall play football or any other game on land adjacent to a highway in a manner likely:

(a) to cause obstruction to traffic; or

(b) to cause danger or give reasonable grounds for annoyance to any person on the highway.

### **Playing games on highways to the annoyance of local residents**

5. No person shall play football or any other game on a highway or on land adjacent to a highway in such a manner as to give reasonable grounds for annoyance to any person living nearby.

### **Touting**

5.—1) No person shall in any street or public place:-

(a) advertise or solicit custom for any

hwnnw; na

(b) cheisio casglu gwybodaeth i'w defnyddio i gyflenwi nwyddau a gwasanaethau:

mewn modd a fyddai'n creu rhwystr neu a fyddai'n sail resymol i greu annifyrrwch i unrhyw un yn y stryd neu fan cyhoeddus honno.

(2) Nid yw Is-ddeddf 8(1) yn berthnasol i hysbysebu na cheisio cael cwsmeriaid i wasanaethau cerbydau hurio i gludo teithwyr.

#### **Gwneud Dŵr, ac yn y blaen**

6. Ni chaiff unrhyw un wneud dŵr nac ysgarthu mewn unrhyw stryd na man cyhoeddus.

Nid yw Is-ddeddf 9 yn berthnasol i doiledau cyhoeddus.

#### **Ymyrryd â Chyfarpar Rhybuddion Ffordd**

7. Ni chaiff unrhyw un, heb awdurdod cyfreithlon, symud nac ymyrryd ag unrhyw lamp, adlewyrchyd nac unrhyw gyfarpar arall sy'n cael ei ddefnyddio i roi rhybudd am unrhyw rwystr, neu i oleuo rhwystr, twll neu berygl arall ar unrhyw ffordd.

#### **Ymyrryd â Chyfarpar Achub Bywyd**

8. Ac eithrio mewn argyfwng, ni chaiff unrhyw un dynnu ymaith, symud neu ymyrryd fel arall ag unrhyw gyfarpar achub bywyd sy'n cael ei osod gan y Cyngor neu unrhyw awdurdod cymwys arall mewn unrhyw stryd neu fan cyhoeddus.

#### **Cosb**

9. Bydd unrhyw un sy'n torri'r is-ddeddfau hyn yn agored ar gollfarn ddiannod, i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 2 ar y raddfa safonol.

service; or

(b) seek to gather information for use in the supply of goods or services;

in such a manner as to cause obstruction or give reasonable grounds for annoyance to any person in that street or public place.

(2) Byelaw 8(1) does not apply to advertising or soliciting custom for services to hire vehicles to carry passengers.

#### **Urinating, Etc.**

6. No person shall urinate or defecate in any street or public place.

Byelaw 9 does not apply to public lavatories/conveniences.

#### **Interference with Road Warning Equipment**

7. No person shall without lawful authority move or tamper with any lamp, reflector or other equipment used for giving warning of, or lighting, any obstruction, excavation or other danger in any road.

#### **Interference with Life Saving Equipment**

8. Except in case of emergency no person shall remove, displace or otherwise interfere with any life saving equipment placed by the Council or other competent authority in any street or public place.

#### **Penalty**


9. Any person offending against these byelaws shall be liable on summary conviction to a fine not exceeding level 2 on the standard scale.

**RHODDWDYD** dan Sêl Gyffredin Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar y  
14eg dydd hwn o Iohelgaf Dwy fil a chwech.

**GIVEN** under the Common Seal of Conwy County Borough Council of this  
14th day of June Two thousand and six.

**GOSODWYD SÊL GYFFREDIN CYNGOR** ) 11092A.  
**BWRDEISTREF SIROL CONWY** )  
ar y Gorchymyn hwn ym mhresenoldeb:- )

**THE COMMON SEAL of CONWY COUNTY** )  
**BOROUGH COUNCIL** was hereunto affixed )  
in the presence of:- )



*[Handwritten signature]*

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol/  
Head of Legal Services

*[Handwritten signature]*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru trwy hyn yn  
cadarnhau a, thrwy arfer ei bŵer, dan adran 235  
o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn cydsynio  
â'r Is-ddeddfau uchod ar . 4/7/06 .....

The National Assembly for Wales hereby  
confirms, and in exercise of its powers,  
under section 235 of the Local Government  
Act 1972 grants consent to the foregoing  
Byelaws on ... 4/7/06 .....